Polisi Athrofa Padarn Sant ar Ddilyniant I Astudiaethau Uwch (Israddedig)

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

Tabl Rheoli Dogfen

Teitl y Ddogfen :	Polisi Athrofa Padarn Sant ar Ddilyniant i Astudiaethau Uwch
Awdur(on) (Enw, swydd deitl a sefydliad):	Gareth Longden, Cofrestrydd
Rhif fersiwn:	Fersiwn 1
Statws y ddogfen:	Cymeradwywyd
Dyddiad Cymeradwyo:	22 Mehefin 2022
Cymeradwywyd gan:	Fwrdd Academaidd Athrofa Padarn Sant
Dyddiad Gweithredi:	Mehefin 2022
Dyddiad Adolygu nesaf:	Mehefin 2025
Fersiwn Blaenorol:	Dim
Dogfennau Perthnasol:	

Hanes y Ddogfen

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Nodiadau ar Adolygiadau

Polisi Athrofa Padarn Sant ar Ddilyniant I Astudiaethau Uwch (Israddedig)

1. Cynnwys y Polisi

1. Cynnwys y Polisi

2. Fframwaith y Polisi

3. Cyflwyniad

4. Meini Prawf

4.1 Maen Prawf Academaidd

4.2 Maen Prawf Ymddygiad

4.3 Maen Prawf Cyllid

5. Cyfrifoldebau, Cymeradwyo Polisi ac Adolygiad

6. Cyfathrebu'r Polisi

2. Fframwaith Polisi

Datblygwyd y polisi hwn yn unol â'r rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau canlynol. Nid yw'r rhestr hyn yn drwyadl:

- Polisi Derbyniadau Athrofa Padarn Sant
- Llawlyfr Ansawdd Academaidd, Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant
- Polisi Cymorth Dysgu Athrofa Padarn Sant
- Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Athrofa Padarn Sant
- Polisi Diogelu Data Athrofa Padarn Sant
- Cyngor a Chanllawiau: Derbyniadau, Recriwtio, ac Ehangu Mynediad- QAA UK Quality Code for Higher Education.

3. Cyflwyniad

3.1 Pan fyddwch wedi cwblhau'r rhaglen rydych chi wedi ei gofrestru arnynt, rhaid i

chi benderfynu os yr hoffech ymgeisio i astudio'r lefel uwch nesaf o astudiaethau. Yn ymarferol, golyga pan fyddwch wedi cwblhau eich Tystysgrif (lefel 4) bydd angen penderfynu os hoffech chi ymgeisio i astudio Diploma (lefel 5). Yn yr un modd, pan fyddwch wedi cwblhau Diploma (lefel 5) bydd angen penderfynu os hoffech ymgeisio i astudio ar lefel gradd (lefel 6).

3.2 Nid yw Mynediad i'r lefel nesaf o astudiaethau yn awtomatig.

3.3 Rhaid i chi gwblhau ffurflen gais syml a chadarnhau eich bod yn cwrdd â'r tair maen brawf canlynol: **Academaidd, Ymddygiad, a Chyllid.** Trafodir y meini prawf yn adran 4.

3.4 Rhaid i chi benderfynu os ydych eisiau parhau a'ch astudiaethau, ar hyn o bryd: oes gennych chi'r amser i'w rhoi a'r brwdfrydedd sydd ei hangen i barhau a'ch astudiaethau? Fe argymhellir yn gryf eich bod yn trafod eich opsiynau gyda'ch Tiwtor Personol. Pe baech yn penderfynu gorffen yn dilyn ennill Tystysgrif neu Ddiploma gallwch ddewis i astudio ym Mhadarn Sant yn y dyfodol.

3.5 Bydd angen i chi gwblhau ffurflen gais syml a datganiad a rhoddir i chi. Bydd angen cwblhau'r ddwy ffurflen cyn ein bod yn gallu prosesu eich cais.

4. Meini Prawf

4.1 Academaidd

Er mwyn llwyddo ar y lefel academaidd nesaf, mae'n bwysig eich bod wedi dangos y gallu i weithio ar y lefel hwnnw. Er mwyn cwrdd â'r meini prawf rydym yn gofyn bod eich marc cyfartaledd ar gyfer eich tri modiwl gorau ar y lefel blaenorol o leiaf 45%. Mae hyn yn rhoi'r hyder i ni y byddwch yn medru ymdopi a gofynion astudio ar lefel uwch.

Enghraifft 1: Mae eich marciau lefel 4 yn: 60%, 59%, 55%, 50%, 49%, a 40%. Cyfartaledd eich marciau uchaf yw (60%, 59%, and 55%) 58% felly rydych wedi rhoi hyder i ni eich bod yn medru ymdopi ac astudiaethau ar y lefel nesaf. Bydd eich cais yn cael ei dderbyn ar y maen brawf hyn.

Enghraifft 2: Mae eich marciau lefel 5 yn: 49%, 42%, 40%, 40%, 40%, a 35%. Cyfartaledd eich tri march uchaf (49%, 42%, and 40%) yw 44% felly nid ydych wedi gallu arddangos i ni eich bod yn medru ymdopi ag astudiaethau ar y lefel nesaf. Ni fydd eich cais yn cael ei dderbyn.

Rydym yn cydnabod, ambell waith, bod eich perfformiad yn cael ei effeithio gan amgylchiadau tu hwnt i'ch rheolaeth. Mewn achosion o'r fath rydym yn fodlon rhoi ystyriaeth i amgylchiadau o'r fath. Os ydych yn teimlo bod eich perfformiad wedi ei heffeithio gan ffactorau tu allan i'ch rheolaeth, yna eglurwch, yn fras, pam rydych chi'n meddwl na ddylai eich cais cael ei wrthod ar sail academaidd.

4.2. Ymddygiad

Yn anffodus, ar rhai adegau, mae dysgwyr wedi methu ac ymddwyn yn y modd a amlinellwyd yn y Cod Ymddygiad. Mewn achosion o'r fath, lle mai tystiolaeth o faterion ymddygiad, ni fyddwn yn derbyn cais ar gyfer astudiaethau ar lefel uwch. Os ydych yn teimlo bod yna ffactorau y dylid eu hesgusodi, er eu bod yn faterion ymddygiad, ac y dylid derbyn eich cais, eglurwch yn fras pam rydych yn teimlo mae hynny ydy'r achos,

4.3 Cyllid

Nid yw unrhyw ddysgwr y medru symud i lefel uwch o astudiaethau os ydynt yn ddyledus i'r Athrofa. Ni fydd eich cais yn cael ei hystyried os na fydd eich dyledion wedi eu talu'n llawn. Os nad ydych mewn sefyllfa i dalu ffioedd dyledus, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau I drafod y cam nesaf ymlaen. Mae Athrofa Padarn Sant yn deall nad yw'n hawdd i bob dysgwr i ddod o hyd i'r cyllid i dalu ffioedd ac rydym wedi ein hymrwymo i helpu lle y gallwn.

5. Cyfrifoldebau, Cymeradwyo ac Adolygu Polisi

Y Cyfarwyddwr Gweithrediadau sydd â chyfrifoldeb llawn dros y polisi hwn.

6. Cyfathrebu'r Polisi

6.1 Gellir dod o hyd i'r ddogfen hwn ar wefan Athrofa Padarn Sant www.stpadarns.ac.uk a'r adran ddysgwyr ar Moodle.

6.2 Bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i ymateb i unrhyw gais i gyflwyno'r polisi hwn mewn fformat gwahanol.

6.3 Bydd y polisi hwn yn cael ei gynnwys fel rhan o gyfnod ymsefydlu staff a dysgwyr.